**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

28 Chwefror 2022

Annwyl Vaughan a Jane,

Ers i adroddiad y Pwyllgor, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, gael ei gyhoeddi, mae Alltudion ar Waith wedi cysylltu â mi i ddweud bod gan lawer o'r bobl o Afghanistan a ddaeth i Gymru yn 2021 brofiad o yrru cerbydau mawr iawn, yn aml oherwydd cyfnod o wasanaeth milwrol. Mae Alltudion ar Waith wedi dweud wrthyf y byddai llawer o'r bobl sydd â'r profiad hwn yn awyddus i ddod yn Yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm yma yng Nghymru. Maent hefyd yn cyfeirio at ddarparu hyfforddiant am ddim i gael trwyddedau Cerbydau Nwyddau Trwm, sef rhywbeth sy'n cael ei ddarparu yn Lloegr gan Lywodraeth y DU.

Mae'n ymddangos y gallai recriwtio'r bobl sy'n cyrraedd o Afghanistan fel gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm helpu i liniaru'r prinder gyrwyr sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. A fyddai modd i chi roi gwybod i mi ynglŷn â'r canlynol:

- A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyrwyddo'r rhaglen brentisiaeth gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm yn uniongyrchol ymysg ffoaduriaid yng Nghymru, gan gynnwys y rhai a ddaeth o Afghanistan y llynedd?
- Mae gwefan Llywodraeth y DU yn disgrifio Bŵt-camps Sgiliau Cerbydau Nwyddau Trwm fel cyrsiau hyfforddi am ddim yn Lloegr. A allwch egluro a oes modd i ffoaduriaid yng Nghymru gael mynediad at y rhain, ac a fyddech yn ystyried eu cefnogi i gael mynediad at yr hyfforddiant naill ai drwy drafnidiaeth i gwrs yn Lloegr neu drwy gynnal cwrs tebyg yng Nghymru?

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac at Delyth Jewell AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies MS

Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.